

Polisi Rheoli Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth



Rhif y Fersiwn:	1.0
Dogfen Statws:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	19 Ebrill 2018
Cymeradwywyd Gan:	Grŵp Goruchwyllo Rheoli Data a Gwybodaeth
Dyddiad Dod i Rym:	19 Ebrill 2018
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mawrth 2020

1 Diben

Diben y polisi hwn yw sicrhau dull cyson ac effeithiol o reoli Digwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth, gan gynnwys cyfathrebu ynghylch digwyddiadau diogelwch a gwendidau. Mae'n galluogi i Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth gael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol gan ddarparu ddiffiniad o Ddigwyddiad Diogelwch Gwybodaeth a sefydlu strwythur ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath a'u rheoli.

2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob aelod o'r Brifysgol gyda chyfeiriad at yr holl wybodaeth a gedwir gan neu ar ran y Brifysgol. I gael y diffiniad o Ddigwyddiad Diogelwch Gwybodaeth gweler yr adran 'Diffiniadau' isod.

3 Cysylltiad â pholisiau sy'n bodoli'n barod

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Hefyd, dylid ei ddarllen ar y cyd ag atodiad Rheoli Pryderon a Rhoi Gwybod Amdanynt o Bolisi Diogelu Oedolion a Phlant sy'n Agored i Niwed.

4 Datganiad Polisi

Rhoddir gwybod am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth yn brydlon ac ymatebir iddynt mewn modd cyflym, effeithiol a threfnus er mwyn lleihau effaith negyddol digwyddiadau, unioni niwed a llywio polisi a lliniaru risgiau yn y dyfodol.

5 Polisiau

- 5.1 Bydd pob aelod o'r Brifysgol yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth a'u cyfrifoldeb i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.
- 5.2 Dylid rhoi gwybod i Ddesg y Gwasanaeth TG am bob Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth yn brydlon yn unol â'r Weithdrefn Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Diogelwch Gwybodaeth.
- 5.3 Caiff pob Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth ei reoli yn unol â'r Weithdrefn Ymateb y Rheolwyr i Ddigwyddiad Diogelwch Gwybodaeth. Caiff difrifoldeb y digwyddiad ei asesu a bydd ymateb y rheolwyr yn gymesur â'r bygythiad.
- 5.4 Caiff gwybodaeth allweddol am ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth difrifol, gan gynnwys effaith y digwyddiad (ariannol neu fel arall), ei chofnodi'n ffurfiol a chaiff y cofnodion eu dadansoddi er mwyn asesu effeithiolrwydd rheolaethau diogelwch gwybodaeth.
- 5.5 Caiff risgiau newydd a nodir o ganlyniad i ddigwyddiad eu dynodi i berchennog perthnasol y risg a chaiff risgiau annerbyniol eu lliniaru'n brydlon yn unol â phrosesau rheoli risg y Brifysgol.
- 5.6 Dylid hyfforddi staff perthnasol mewn casglu, cadw a chyflwyno tystiolaeth ddigidol, yn unol â rhwymedigaethau deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- 5.7 Bydd unigolion awdurdodedig yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol i'r awdurdodau allanol lle y bo'n berthnasol.

6 Cyfrifoldebau

- 6.1 Mae pob aelod o'r Brifysgol yn gyfrifol am roi gwybod am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth gwirioneddol, neu amheuaeth o un, i'r cyswllt mewnol perthnasol cyn gynted â phosibl yn unol â'r Weithdrefn Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Diogelwch Gwybodaeth.
- 6.2 Gofynnir i gontractwyr sy'n defnyddio systemau gwybodaeth a gwasanaethau'r Brifysgol i nodi a rhoi gwybod am unrhyw wendidau sylweddol o ran diogelwch gwybodaeth yn y systemau neu'r gwasanaethau hynny.
- 6.3 Caiff y cyfrifoldeb ar gyfer ymateb i Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth ei nodi yn y Weithdrefn ar gyfer Rheoli Achosion Diogelwch Gwybodaeth.
- 6.4 Uwch-berchennog y Risg Gwybodaeth sy'n gyfrifol am roi gwybod i awdurdodau allanol am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth difrifol oni bai bod y cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo fel arall yn y Weithdrefn ar gyfer Rheoli Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth.

7 Cydymffurfio

- 7.1 Bydd methu â rhoi gwybod am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth ac unrhyw achos arall sy'n torri'r polisi hwn yn cael ei ystyried fel mater disgyblu a rhoddir gwybod amdano i Uwch-berchennog y Risg Gwybodaeth er mwyn iddo fynd i'r afael â'r mater o dan y côd disgyblu perthnasol.
- 7.2 Dylai cydymffurfiaeth â'r polisi hwn lunio rhan o unrhyw gontract gyda thrydydd parti a all gynnwys cael mynediad at rwydweithiau, systemau cyfrifiadurol neu ddata'r Brifysgol. Os bydd contractwyr yn methu cydymffurfio â chymal 6.2 y polisi hwn gall olygu achos o dorri'r contract y gellir gweithredu arno.

8 Diffiniadau

Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth

Digwyddiad diogelwch gwybodaeth yw sefyllfa annymunol neu annisgwyl sy'n digwydd neu'n datblygu, sy'n dangos **naill ai**:

- a) achos posibl o dorri polisi fframwaith diogelwch gwybodaeth **neu**
- b) bydd methu â chadw at reolaethau diogelwch gwybodaeth sydd â thebygolrwydd sylweddol o beryglu gweithrediadau busnes.

Mae enghreifftiau o Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth yn cynnwys y canlynol (ond nid yn gyfyngedig iddynt):

- Achos o golli neu ddwyn Gwybodaeth Gyfrinachol yn uniongyrchol (e.e. papurau yn cael eu dwyn o'ch car, post yn cael ei ddwyn cyn iddo gyrraedd, lawrlwytho heb ganiatâd)
- Achos o golli neu ddwyn cyfarpar a ddefnyddir i storio Gwybodaeth Gyfrinachol (e.e. gliniadur, ffôn clyfar, cofbin USB)
- Datgelu gwybodaeth 'Gyfrinachol' neu 'Gyfrinachol lawn' yn ddamweiniol (e.e. rhoi cyfeiriad anghywir ar gyfer y gohebiaeth neu ganiatâd anghywir ar y system/methiant hidlydd)
- Llygru neu addasu cofnodion hanfodol heb awdurdod (e.e. newid prif gofnodion)
- Peryglu system neu gyfarpar cyfrifiadurol (e.e. feirws, maleiswedd, ymosodiad atal gwasanaeth)
- Peryglu cyfrif defnyddiwr TG (e.e. ffugio, hacio, rhannu cyfrinair)
- Achos o dorri mewn i leoliad sydd â Gwybodaeth Gyfrinachol neu sydd â chyfarpar hanfodol ar gyfer prosesu data megis gweinyddion

Mae Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth difrifol yn ddigwyddiad lle bydd ei effaith, os nad yw'n cael ei reoli, yn gallu cyrraedd lefel Ganolig neu uwch ar Feini Prawf Mesur Risg y Brifysgol. Bydd digwyddiadau sy'n ymwneud â delweddau o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob amser yn cael eu rhoi mewn categori difrifol.

Gwybodaeth Gyfrinachol yw gwybodaeth sy'n gyfrinachol, yn gyfrinachol iawn neu sydd angen lefel uwch o warchodaeth i sicrhau uniondeb neu argaeledd oherwydd ei natur. Ceir esboniadau pellach o'r dosbarthiadau hyn yn nogfen Dosbarthiadau Gwybodaeth y Brifysgol